



CANOLBWYNT CYFLOGAETH

CONWY

EMPLOYMENT HUB

CYMORTH HYFFORDDIANT GRYMUSO
SUPPORT TRAINING EMPOWERMENT

Pecyn Gwaith Ymgysylltu



**Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund**

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â CHYMUNEDAU AR GANOLFAN BYD GWAITH
WORKING IN PARTNERSHIP WITH COMMUNITIES AND JOB CENTRE PLUS



CANOLBWYNT CYFLOGAETH

CONWY

EMPLOYMENT HUB

CYMORTH HYFFORDDIANT GRYMUSO
SUPPORT TRAINING EMPOWERMENT

Mae Canolbwynt Cyflogaeth Conwy yn 'siop un alwad' dan arweiniad y gymuned ar gyfer cyflogadwyedd

Ein rôl yw helpu trigolion Conwy i ddod o hyd i gyflogaeth ystyrlon drwy Raglenni Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru. Rydym yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i alluogi cynnydd i mewn i waith, i ddod o hyd i gyfleoedd hyfforddi addas neu rolau gwirfoddoli.

Rydym hefyd yn darparu cymorth i gyflogwyr lleol sy'n chwilio i lenwi swyddi gwag, gan gydweddu cyfranogwyr addas yr ydym yn gweithio â nhw i nifer o rolau gwahanol mewn holl fathau o sectorau. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau i gynnal rhaglenni llwybr hyfforddi sy'n benodol i sectorau.

Os ydych yn chwilio am swydd neu os ydych yn gyflogwr sydd eisiau ein cymorth, mae'r pecyn gwaith hwn yn cynnwys popeth sydd ei angen arnoch i gymryd rhan.

Yn ddi-waith ac eisiau ein cymorth?

[Darllenwch fwy.](#)

Yn gyflogwr sydd angen ein cymorth?

[Darllenwch fwy.](#)

Ein Rhaglenni

[Darllenwch fwy.](#)

Canolbwynt Cyflogaeth Conwy

01492 575578, ccc@conwy.gov.uk, www.conwy.gov.uk/canolbwyntcyflogaethconwy



CANOLBWYNT CYFLOGAETH

CONWY

EMPLOYMENT HUB

CYMORTH HYFFORDDIANT GRYMUSO
SUPPORT TRAINING EMPOWERMENT

Ydych chi'n ddi-waith?

Ydych chi'n gweithio llai na 16 awr yr wythnos?

Ydych chi'n chwilio am hyfforddiant?

Rydyn ni yma i'ch helpu:

Cymorth

- Mentora un-i-un personol, wedi'i deilwra i'ch anghenion
- Cyngor ar Gyflogaeth, Swyddi a Budd-daliadau
- Benthycu Chromebook a dongle wifi, costau teithio, dogfennau adnabod
- Ysgrifennu CV, llunio ceisiadau am swydd a pharatoi ar gyfer cyfweiliadau
- Cefnogaeth ariannol i oresgyn rhwystrau i hyfforddiant a gwaith e.e. costau gofal plant
- Cefnogaeth yn y gwaith am hyd at fis wedi i chi ddechrau gweithio

Hyfforddiant

- Cynllun datblygu personol unigol i'ch helpu chi gyflawni eich nod terfynol
- Mynediad at gyrsiau hyfforddi a ddarperir gan bobl broffesiynol ac wedi'u hariannu'n llawn
- Llwybrau hyfforddi sy'n benodol i'r sector, sy'n dod â hyfforddiant, profiad gwaith a chyfleoedd gwaith ynghyd
- Mentora a mynediad at sesiynau datblygu sgiliau hyder ac a arweinir gan gyflogwyr, wedi'u hariannu'n llawn

Grymuso

- Eich helpu i gynyddu eich sgiliau
- Eich helpu i ddod o hyd i Gyflogaeth
- Eich helpu i ddod o hyd i Brofiad Gwaith
- Eich helpu i ddod o hyd i Rolau Gwirfoddoli
- Eich helpu i adeiladu dyfodol gwell a disglair

Canolbwynt Cyflogaeth Conwy

01492 575578, ccc@conwy.gov.uk, www.conwy.gov.uk/canolbwyntcyflogaethconwy



CANOLBWYNT CYFLOGAETH

CONWY

EMPLOYMENT HUB

CYMORTH HYFFORDDIANT GRYMUSO
SUPPORT TRAINING EMPOWERMENT

Eich Siwrnai

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn eich atgyfeirio at y Canolbwynt neu gallwch atgyfeirio eich hun drwy ddefnyddio ein ffurflen ar-lein

[Cliciwch Yma](#)

Bydd un o'n mentoriaid cyfeillgar yn cysylltu â chi i gwblhau'r broses cofrestru

Byddwch yn cael cynghorydd a mentor cyflogaeth dynodedig, a fydd yn rhoi mentora 1 i 1 i chi, sydd wedi'i bersonoli ar gyfer eich anghenion ac yn gweithio ar eich cyflymder chi

Llwyddiant!

Byddwch yn dod o hyd i swydd newydd.

Byddwn yn parhau i'ch cefnogi am hyd at fis wedi i chi ddechrau gweithio

Darllenwch
eich
astudiaethau
achos
diweddar

"Mae'r cymorth gefais i wedi newid fy myd yn gyfan gwbl! Roeddwn i'n ei chael yn anodd byw. Felly mae'n deg i ddweud fod yr holl gymorth a dderbyniais o bosib wedi achub fy mywyd! Roedd yr holl gyrsiau cefais y cyfle i gymryd rhan ynddynt o gymorth mawr."

Canolbwynt Cyflogaeth Conwy

01492 575578, ccc@conwy.gov.uk, www.conwy.gov.uk/canolbwyntcyflogaethconwy



CANOLBWYNT CYFLOGAETH

CONWY

EMPLOYMENT HUB

CYMORTH HYFFORDDIANT GRYMUSO
SUPPORT TRAINING EMPOWERMENT

Cymorth i Gyflogwyr

Mae Canolbwynt Cyflogaeth Conwy yn 'siop un alwad' ar gyfer cyflogadwyedd yng Nghonwy. Yn ogystal â chefnogi nifer o unigolion sy'n chwilio am waith, cyfleoedd hyfforddi a rolau gwirfoddoli, rydym hefyd yn rhoi cymorth i gyflogwyr lleol:

Llwybrau Hyfforddi sy'n Benodol i'r Sector

Rydym yn gweithio gyda nifer o fusnesau, bach a mawr i ddatblygu cyrsiau "Llwybrau" mewn sectorau penodol sy'n darparu cyfranogwyr gyda'r sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol, cymorth cyflogadwyedd, gan gynnwys sgiliau cyfweiliad a phrofiad gwaith, i'w helpu i ddechrau gyrfa newydd neu ddatblygu o fewn y sector hwnnw. Yn ddiweddar rydym wedi cynnal cyrsiau llwyddiannus ar gyfer gofal cymdeithasol, adeiladu, lletygarwch a cherbydau nwyddau trwm, ond rydym yn agored i drafod sectorau newydd neu greu partneriaethau newydd i gynnal llwybrau ychwanegol.

Galw Heibio i Fusnesau

Ydych chi'n chwilio am staff ond yn ei chael yn gynyddol anodd i lenwi'r swyddi gwag hanfodol, yna ymunwch â ni yn ein Sesiwn Ymgysylltu â Chyflogwyr i weld os allwn ni eich helpu chi.

Bob dydd Iau o 2.00-2.30pm ar Teams ar <https://bit.ly/HubEmployer>

Cymorth dileu swyddi ar gyfer Cyflogwyr

Mae Cymru'n Gweithio yn cefnogi'r cyflogwr a'r rhai sydd o dan fygythiad o golli eu swydd. Mae hyn yn cynnwys cyngor gyrfaoedd a hyfforddiant, canfod ffynonellau posibl o gyllid ar gyfer hyfforddiant, gwybodaeth ar swyddi gwag a chymorth gyda CV a cheisiadau swyddi. Os ydych yn gyflogwr ac yn gorfod gwneud y penderfyniad anodd o ddileu swyddi, mae cymorth ar gael ar [Cymorth ar ôl Diswyddo | Cymru'n Gweithio](#).

Cymorth Llywodraeth Cymru

Mae ystod o sgiliau a chynnyrch cyflogaeth i helpu busnesau i dyfu a ffynnu. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gwybod mwy am y porth sgiliau, prentisiaethau, hyfforddeiaethau, Kickstart a chynnyrch eraill, [lawrlwythwch y daflen wybodaeth](#) i ddarganfod mwy.

Cysylltwch â ni ar 01492 575578, anfonwch e-bost at CCC@conwy.gov.uk neu gallwch gwblhau'r [ffurflen gyswilt ar-lein](#) a byddwn yn eich ffonio chi



CANOLBWYNT CYFLOGAETH

CONWY

EMPLOYMENT HUB

CYMORTH HYFFORDDIANT GRYMUSO
SUPPORT TRAINING EMPOWERMENT

Rhaglenni Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru

Cymunedau am Waith

Yn darparu cymorth mentora dwys i ddatblygu hyder a sgiliau pobl a'u helpu nhw i ddod o hyd i a chynnal cyflogaeth. Mae'n raglen ar sail cod post sy'n gweithio ar gyfer pobl di-waith hirdymor sy'n 25 oed a hŷn, pobl economaidd anweithgar 25 oed a hŷn, a phobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant.

Cymunedau am Waith a Mwy

Yn gweithredu mewn modd tebyg i Gymunedau am Waith i ddarparu cymorth mentora dwys i ddatblygu hyder a sgiliau pobl a'u helpu nhw i ddod o hyd i a chynnal cyflogaeth. Mae'r rhaglen ar gyfer pobl sydd unai mewn tlodi neu mewn perygl o dlodi ac ar gael ar draws sir Conwy.

PaCE

Yn cefnogi pobl sy'n gweld fod costau gofal plant yn eu rhwystro rhag hyfforddi neu weithio. Mae'n dod o hyd i ddatrysiadau i oresgyn rhwystrau gofal plant er mwyn galluogi rhieni a/neu ofalwyr i baratoi a chael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth.

Cynnydd

Mae'r Canolbwynt hefyd yn gweithio gyda'r Cynllun Cynnydd ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant 16-24 oed, sydd yn anodd eu cyrraedd, gan eu darparu â'r canllawiau, gofal a chymorth gorau bosibl, gan gynnwys addysg, cyflogaeth, hyfforddeiaethau a phrentisiaethau er mwyn adeiladu dyfodol gwell.

Ein Llwyddiant

Cymunedau am Waith

- Rhagori ar ganlyniadau swyddi ar gyfer Oedolion **77%** yn y chwarter diwethaf
- Rhagori ar ganlyniadau swyddi ar gyfer Pobl Ifanc **352%** yn y chwarter diwethaf

Cymunedau am Waith a Mwyfor

- Cynnydd o **134%** mewn Ymgysylltiad yn 2020-2021
- Rhagori canlyniadau swyddi **140%** eleni

PaCE

- Rhagori canlyniadau swyddi **46%** eleni

Canolbwynt Cyflogaeth Conwy

01492 575578, ccc@conwy.gov.uk, www.conwy.gov.uk/canolbwyntcyflogaethconwy